



Cynlluniwr y Tymor 2015-16



























www.edinatrust.org.uk/ETBulbProject.html

E-bost: samantha.moore@edinatrust.org.uk

Ffôn: 01993 220090

Mae rhagor o fanylion am y gweithgareddau hyn yn y ddogfen 'Teacher's Guide'

Dyddiad	Gweithgareddau
<p>Danfon bylbiau a photiau</p> <p>I bob ysgol erbyn 10 Hydref 2016</p>	<p>Bydd eich pecynnau 'Bylbiau'r Gwanwyn i Ysgolion' a phroject bylbiau Edina Trust yn cael eu hanfon i'ch ysgol erbyn y dyddiad a nodir yn y golofn gyferbyn. Cofiwch gadw'ch bylbiau mewn lle sych ac oer cyn plannu.</p> <p>Dylai'r pecynnau gynnwys:</p> <p>Pecyn Bylbiau a Photiau</p> <ul style="list-style-type: none"> • 1 bwlb cenhinen Bedr i bob disgybl • 1 bwlb Saffrwm i bob disgybl • 1 potyn i bob disgybl • 5 bwlb dirgel ac 1 potyn i bob ysgol • 4 bwlb a photyn sbâr i bob ysgol • Taleb £10 ar gyfer canolfan arddio (i brynu compost) • 20 o fylbiau cennin Pedr i bob ysgol (i'w plannu yn y ddaear) • Thermomedr • Mesurydd glaw <p>Pecyn adnoddau (ysgolion newydd)</p> <ul style="list-style-type: none"> • 1 trywel • 1 camera digidol • 1 cofgerdyn SD • 20 o labeli planhigion • 1 marciwr gwrth-ddŵr • Arwyddbost gwely bylbiau Ymddiriedolaeth Edina • Adnoddau papur amrywiol <p>Pecyn adnoddau (ysgolion dychwel)</p> <ul style="list-style-type: none"> • 20 o labeli planhigion • 1 marciwr gwrth-ddŵr • Adnoddau papur amrywiol

	Dyddiad	Gweithgareddau	
  	<p>Dechrau arni</p> <p>Pob ysgol wythnos yn dechrau: 10 Hydref.</p>	<p>Cyflwyno'r project i'ch disgyblion a pharatoi ar gyfer plannu:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cyn plannu, bydd angen i ddisgyblion enwi a mabwysiadu eu bylbiau unigol a'r bylbiau i'w plannu yn y ddaear a gwneud labeli ar gyfer eu potiau. Mae'n amser da i drafod beth sydd ei angen ar blanhigyn i dyfu. <p>Adnoddau (project estynedig): Project bylbiau Ymddiriedolaeth Edina (PowerPoint) Tystysgrif mabwysiadu bwlb (Bylbiau yn y ddaear)</p>	  
   	<p>Diwrnod plannu</p> <p>Ysgolion Cymru a Lloegr: 20 Hydref</p> <p>Ysgolion yr Alban: 27 Hydref</p>	<p>Pob ysgol i blannu'r bylbiau ar y dyddiad hwn er mwyn sicrhau prawf teg.</p> <ul style="list-style-type: none"> Bydd angen i ddisgyblion blannu eu bylbiau mewn potiau ac yn y ddaear, a gosod y labeli a baratowyd ganddyn nhw'n barod. Os na allwch chi blannu ar y dyddiad hwn, yna gwnewch hynny cyn gynted â phosib a gwneud nodyn o'r dyddiad. Bydd angen i chi gael pridd yn barod i blannu'r bylbiau mewn potiau (bydd taleb £10 gyda'ch pecyn bylbiau a photiau ar gyfer compost). Trafodwch reolau diogelwch cyn plannu. <p>Adnoddau (project estynedig): Plannu'ch bylbiau yn y ddaear</p>	   
  	<p>Cystadleuaeth 'Postiwch lun o'ch gwely bylbiau'</p>	<p>Postiwch lun o'ch Gwely Bylbiau Edina ar y diwrnod plannu, ar wefan Moodle (mae'r manylion mewngofnodi wedi'u hamgáu).</p> <p>Bydd y llun gorau yn ennill gwobr arddio i'r ysgol. Byddwn yn dewis yr enillydd ar 7 Tachwedd 2016</p> <p>Adnoddau (project estynedig): Ground Group & Daffodil Chart Poster</p>	  
 	<p>Cadw cofnodion o'r cyfnod blodeuo a blog bylbiau:</p> <p>Ionawr-Mawrth</p>	<p>Rhwng mis Ionawr a mis Mawrth, anogwch eich disgyblion i edrych ar y gwely bylbiau'n rheolaidd a chofnodi dyddiadau blodeuo a thaldra'r planhigion.</p> <ul style="list-style-type: none"> Unwaith mae'r bylbiau yn eich gwelyau bylbiau yn dechrau tyfu. E-bostiwch eich straeon a'ch lluniau atom ni, fel y gallwn eu hychwanegu at ein blog bylbiau. 	 

Dyddiad	Gweithgareddau
	<ul style="list-style-type: none"> • Cofnodi: Mae Ymddiriedolaeth Edina wedi sefydlu gwefan Moodle i ysgolion allu cyflwyno data am y cennin Pedr maen nhw wedi eu <u>plannu yn y ddaear</u>. Y cyfeiriad yw http://moodle.edinatrust.org.uk. Mae gwybodaeth am sut i ddefnyddio'r wefan ar gael yn 'Moodle Teachers' Guide'. • Cyn gynted ag y bydd cenhinen Bedr yn eich gwely bylbiau yn agor, dewiswch ddisgybl o'ch 'Grŵp Tir' i fewngofnodi i wefan Moodle Ymddiriedolaeth Edina, a theipio dyddiad blodeuo ac uchder y planhigyn. • Defnyddiwch PowerPoint 'keeping flower records' i wneud yn siwr bod y disgyblion yn gwybod beth i'w gofnodi a phryd. • Mapio. Yn fuan ar ôl anfon cofnod blodeuo, dylai llun blodyn ymddangos uwchben eich ysgol ar y map blodau. Cofiwch annog eich disgyblion i droi at y mapiau hyn ar wefan Moodle Ymddiriedolaeth Edina, i weld lle mae'r blodau'n blaguro gyntaf a chymharu amseroedd blodeuo'r bylbiau mewn potiau a'r rhai yn y ddaear. Trafodwch i weld a allan nhw feddwl pam mae'r bylbiau'n blodeuo ar adegau gwahanol. • Os nad yw rhai o'r bylbiau yn y gwely bylbiau wedi blodeuo, peidiwch â phoeni – ond rhowch wybod i ni. Ar dudalen 'Recordings' gwefan Moodle project Ymddiriedolaeth Edina, gallwch gofnodi uchder y planhigyn a thicio'r blwch 'didn't open'. <p>Adnoddau (project estynedig):</p> <p>Canllaw Moodle i athrawon Poster siart cennin Pedr a'r grŵp tir (Bylbiau yn y ddaear)</p>
<p>Adroddiad canlyniadau</p> <p>Wythnos 2 Mai 2017</p>	<p>Bydd adroddiad canlyniadau'r Project Estynedig Ymddiriedolaeth Edina a chyflwyniad PowerPoint addas i ddisgyblion yn cael eu hanfon i bob ysgol erbyn 2 Mai 2017.</p>
<p>Gallwch lawrlwytho'r holl adnoddau y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon o: www.edinatrust.org.uk/ETBulbProjectResources.html</p>	